# Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019

**2019 dccc 3**

## RHAN 5

YMCHWILIO I GWYNION SY'N YMWNEUD Â PHERSONAU ERAILL: GOFAL CYMDEITHASOL A GOFAL LLINIAROL

*Cymhwyso'r Rhan hon*

### 42 Materion y mae'r Rhan hon yn gymwys iddynt

(1) Mae'r Rhan hon yn gymwys i'r materion a ganlyn—

(a) camau gweithredu a gymerwyd gan ddarparwr cartref gofal mewn cysylltiad â darparu llety, gofal nyrsio neu ofal personol mewn cartref gofal yng Nghymru;

(b) camau gweithredu a gymerwyd gan ddarparwr gofal cartref mewn cysylltiad â darparu gofal cartref yng Nghymru;

(c) camau gweithredu a gymerwyd gan ddarparwr gofal lliniarol annibynnol mewn cysylltiad â darparu gwasanaeth gofal lliniarol yng Nghymru.

(2) Ond nid yw'r Rhan hon yn gymwys i'r materion a ganlyn—

(a) materion y caniateir ymchwilio iddynt o dan Ran 3, neu

(b) materion a ddisgrifir yn Atodlen 4.

(3) Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau ddiwygio Atodlen 4 drwy—

(a) ychwanegu cofnod,

(b) dileu cofnod, neu

(c) newid cofnod.

(4) Cyn gwneud rheoliadau dan is-adran (3), rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r Ombwdsmon.

***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019, Croes Bennawd: Cymhwyso'r Rhan hon yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 15 Mai 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details) View outstanding changes*

(5) Ni chaniateir gwneud rheoliadau o dan is-adran (3) oni bai bod drafft o'r offeryn statudol sy'n cynnwys y rheoliadau wedi ei osod gerbron y Cynulliad, ac wedi ei gymeradwyo drwy benderfyniad ganddo.

(6) I gael ystyr y termau a ganlyn gweler adrannau 62 i 64—

"cartref gofal" ("*care home*");

"darparwr cartref gofal" ("*care home provider*");

"darparwr gofal cartref" ("*domiciliary care provider*");

"darparwr gofal lliniarol annibynnol" ("*independent palliative care provider*");

"gofal cartref" ("*domiciliary care*");

"gwasanaeth gofal lliniarol" ("*palliative care service*").

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 42 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 77(1)**

**I2** A. 42 mewn grym ar 23.7.2019 gan O.S. 2019/1096, **rhl. 2**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019, Croes Bennawd: Cymhwyso'r Rhan hon yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 15 Mai 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau.
View outstanding changes

**Changes and effects yet to be applied to the whole Act associated Parts and Chapters:**

- Act modified by 2023 asc 3 Sch. 2 para. 6
- Act modified by 2023 asc 3 Sch. 12 para. 7(2)

Whole provisions yet to be inserted into this Act (including any effects on those provisions):

- s. 65(7)(f) inserted by 2022 c. 30 Sch. 10 para. 6(2)(a) (Welsh language text)
- s. 65(7)(f) inserted by 2022 c. 30 Sch. 10 para. 6(2)(b) (English language text)